Pam nad ydym yn gweithredu ymarfer da?

Y mae yna amryw o resymau pam fel maes y mae'r gymuned atal anafiadau'n methu â dethol a gweithredu ymarfer da. Y mae'r heriau mwyaf cyffredin yn cynnwys: gwrthwynebiad i newid o'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd; blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd; methiant i gynllunio atebion yn effeithiol; diffyg cynhwysedd neu arbenigedd; a phrinder amser neu adnoddau i ymgymryd â'r ymarfer da sydd wedi'i brofi.

Sut ydym yn gweithredu'r hyn sy'n gweithio?

Y mae arbenigwyr yn cydnabod nad yw gwybod beth weithiodd mewn un sefyllfa yn ddigon. Y mae yna mewn gwirionedd dri maes gwybodaeth i'w hystyried wrth ddethol strategaethau yn ystod cynllunio strategol a gweithredu:

1 A oes yna dystiolaeth bod yr ymagweddiad wedi bod yn effeithiol yn rhywle arall?

2 A yw'r amgylchedd gwleidyddol a chymdeithasol cyfredol yn barod ac yn gallu derbyn y strategaeth atal anafiadau?

3 A oes yna ddealltwriaeth realistig ac eglur o'r broses sydd ei hangen i ymgymryd â'r strategaeth atal anafiadau?

Y mae'r pwyntiau trosglwyddo a gweithredu ac astudiaethau achos Ewropeaidd sydd wedi'u cynnwys yn y fersiwn gyflawn o'r Canllaw yno fel gwybodaeth i'w hystyried wrth edrych ar y tri maes hyn ac fel eglurebau o ymarfer da ar waith. Fe obeithir y bydd y wybodaeth yn dechrau darparu syniadau cychwynnol ynglŷn â pham bod strategaeth yn gweithio ac yn darparu rhywfaint o arweiniad ar gyfer trosglwyddo i sefyllfaoedd newydd. Y mae angen mwy o waith i ddeall yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant strategaeth sy'n cael ei throsglwyddo o'r naill sefyllfa i'r llall.

Beth arall y gellir ei wneud i gymorth diwylliant o ymarfer da mewn atal anafiadau i blant a hyrwyddo diogelwch?

Fe obeithir mai drwy sicrhau ymwybyddiaeth o strategaethau effeithiol, fe all y gymuned sy'n atal anafiadau annog yn well lunwyr polisi i fabwysiadu ymarfer da wedi'i seilio ar dystiolaeth i'w sefyllfa a dechrau gweithio i weithredu'r newidiadau hynny. Fodd bynnag, os yw'r gymuned atal anafiadau i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig a chael yr effaith fwyaf ar fywydau plant Ewrop, y mae angen gweithredoedd ac ymrwymiad ar lawer o lefelau. Felly, wrth ddirwyn i ben, y mae'r gweithredu a'r ymrwymiad sydd eu hangen gan sefydliadau rhyngwladol, y Comisiwn Ewropeaidd a llywodraethau cenedlaethol, ymchwilwyr i anafiadau ac ymarferwyr anafiadau'u hunain yn cael ei grynhoi.

Fe all sefydliadau rhyngwladol:

- Annog a hwyluso llywodraethau a sefydliadau cenedlaethol i gyfnewid gwybodaeth yn systematig am ymarfer da a materion trosglwyddedd ar gyfer rhaglenni atal anafiadau i blant
- Cynorthwyo gwledydd a rhanbarthau i adeiladu cynhwysedd i roi sylw i anafiadau i blant gan ddefnyddio ymarfer da
- Gweithio'n gydweithredol gydag asiantaethau rhyngwladol eraill i hyrwyddo ymarfer da o ran atal anafiadau i blant a hyrwyddo diogelwch
- Annog gwerthuso holl fentrau atal anafiadau i blant er mwyn canfod enghreifftiau newydd o ymarfer da a hwyluso cyfnewid gwybodaeth ar ymarfer da rhwng rhanddeiliaid

Fe all llywodraethau cenedlaethol a'r Comisiwn Ewropeaidd:

- Cefnogi a chyllido mesurau ymarfer da ar atal anafiadau sy'n lleihau marwolaethau o anafiadau ac anafiadau difrifol i blant mewn ymagweddiad cyfunol o ran addysg, peirianneg a gorfodi safonau a rheoliadau, yn benodol drwy:
  - cyfnewid gwybodaeth am ymarfer da a materion trosglwyddedd parthed rhaglenni atal anafiadau i blant
  - gwell datblygiad a mwy o orfodi safonau diogelwch plant a mathau eraill o ddeddfwriaeth diogelwch
  - cefnogi diwylliant o ymarfer da a sicrhau gwerthuso holl fentrau atal anafiadau i blant
  - gwneud a glynu wrth ymrwymiadau i fabwysiadu arferion da
- Integreiddio strategaethau ymarfer da ar gyfer atal anafiadau i blant i mewn i raglenni Ewropeaidd ac iechyd cyhoeddus cenedlaethol a pharatoi a gweithredu strategaeth Ewropeaidd a chenedlaethol ar atal anafiadau i blant gyda chynlluniau gweithredu priodol yn seiliedig ar ymarfer da ac adnoddau pwrpasol

Fe all ymchwilwyr anafiadau:

- Cynnal ymchwil i ddeall yn well y prosesau drwy'r hyn y mae strategaethau / ymyriadau'n cael eu nodi, eu mabwysiadu, eu derbyn a'u cynnal; ac i ddeall yr hwylusyddion a'r rhwystrau i drosglwyddo ymarfer da rhwng sefyllfaoedd
- Gwerthuso'r strategaethau atal anafiadau yn ystod plentyndod nad ydynt wedi'u profi'n effeithiol nac yn aneffeithiol er mwyn adeiladu'n gwybodaeth am yr hyn yw ymarfer da
- Cynnal astudiaethau cost-effeithiolrwydd i ddarparu mwy o wybodaeth i lunwyr penderfyniadau i gynorthwyo gyda llunio penderfyniadau rhwng arferion da
- Cynorthwyo i drosi canlyniadau ymchwil i fod yn ddatganiadau tystiolaeth allweddol sy'n hawdd eu deall

  Lledaenu'r datganiadau tystiolaeth hyn a chymryd rhan fwy gweithredol mewn eiriol dros ddewisiadau polisi sy'n arwain at weithredu ymarfer da

Fe all ymarferwyr anafiadau:

- Cyfathrebu'r dystiolaeth / ffeithiau o'r hyn sy'n gwir weithio a dangos enghreifftiau o'r llwyddiant hwn
- Adeiladu ac ymestyn rhwydweithiau o gydweithredu gyda chyrff anllywodraethol eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch a gyda rhanddeiliaid mawr ym maes busnes, llywodraeth a'r byd academaidd er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o fabwysiadu diwylliant o ymarfer da mewn atal anafiadau i blant
- Darparu arbenigedd ym maes atal anafiadau i blant ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio ac ynglŷn â gweithredu ymarfer da, safonau a rheoliadau effeithiol mewn amrywiol sefyllfaoedd a diwylliannau
- Gweithredu fel eiriolwyr gyda'r llywodraeth a diwydiant er mwyn gweithredu a gwerthuso ymarfer da mewn atal anafiadau i blant ledled yr holl sectorau
- Gwerthuso'r holl fentrau atal anafiadau i blant dan arweiniad cyrff anllywodraethol er mwyn nodi ymarfer da newydd a hwyluso cyfnewid gwybodaeth am ymarfer da rhwng rhanddeiliaid

Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth

I gael fersiwn gyflawn o'r Canllaw Ymarfer Da ar Ddiogelwch Plant, cysylltwch â Chynghrair Diogelwch Plant Ewrop yn: secretariat@childsafetyeurope.org neu lawrlwythwch oddi ar y wefan yn: **www.childsafetyeurope.org**

Cyfeiriadau

MacKay M, Vincenten J, Brussoni M, Towner L. *Child Safety Good Practice Guide: Good investments in unintentional child injury prevention and safety promotion*. Amsterdam: Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, Eurosafe; 2006.

ISBN 978-90-6788-331-3
© Tachwedd 2007
Adroddiad allanol 306

mewn partneriaeth gyda

European Commission

unicef

Canllaw Ymarfer Da ar Ddiogelwch Plant:

Buddsoddiadau da mewn atal anafiadau anfwriadol i blant a hyrwyddo diogelwch

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Y mae'r angen am wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio yn tyfu bob diwrnod ymysg y sawl sy'n gweithio i leihau baich anafiadau anfwriadol ymysg plant Ewrop; y prif achos marwolaeth ymysg plant ym mhob gwlad. Y mae datblygiadau diweddar sy'n galw ar Aelod-Wladwriaethau i ddatblygu cynlluniau gweithredu cenedlaethol i atal anafiadau wedi cynyddu'r galw i ddarparu ymyriadau effeithiol ar y lefel genedlaethol a lleol. Y mae defnydd da o dystiolaeth yn ganolog i gyflawni hyn ac y mae gwybod 'beth sy'n gweithio' wrth graidd datblygu polisi a rhaglenni da.

Y mae Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, rhaglen y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Atal Anafiadau a Hyrwyddo Diogelwch - EuroSafe, yn credu yng ngwerth 'ymarfer da', sydd i ni'n cyfuno'r dystiolaeth ymchwil orau bosibl gydag arbenigedd arbenigol gweithwyr proffesiynol yn y 'byd go iawn'. Y mae'r ymagweddiad hwn yn mynnu bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o agweddau tystiolaeth orau ac yn ymarferol o drosglwyddo polisïau a rhaglenni o'r naill sefyllfa i'r llall. Gyda chymaint i wneud i roi sylw i ddiogelwch plant Ewrop a chyn lleied o amser ac adnoddau cyfyngedig, y mae yna angen i ganolbwyntio ar fuddsoddiadau da, y strategaethau hynny sy'n fwyaf tebygol o leihau anafiadau anfwriadol yn ystod plentyndod. Y mae'n rhaid i'r strategaethau hyn hefyd roi sylw i unigrywiaeth plant, gan gymryd i ystyriaeth bod plant yn gr□p sy'n agored i niwed yn y byd ble y maent yn byw, rhoi sylw i'w cyfnodau tyfu a datblygu, a chael plant eu hunain yn ganolbwynt y gweithredu, nid oedolion.

Beth yw ymarfer da?

Er diben y Canllaw Ymarfer Da ar Ddiogelwch Plant, fe ddiffinnir 'ymarfer da' fel:

1) Strategaeth atal sydd wedi'i gwerthuso a'i chanfod i fod yn effeithiol (naill ai trwy adolygiad systematig neu o leiaf un gwerthusiad trwyadl) NEU
2) Strategaeth atal ble mae gwerthuso trwyadl yn anodd ond y mae barn arbenigol yn cefnogi'r arfer, ac y mae data'n awgrymu'i bod yn strategaeth effeithiol (e.e., y defnydd o ddyfeisiadau arnofiant personol (PFD) i atal boddi) NEU
3) Strategaeth atal ble mae gwerthuso trwyadl yn anodd ond y mae barn arbenigol yn cefnogi'r arfer ac y mae yna gysylltiad pendant rhwng y strategaeth a llai o risg ond cysylltiad llai pendant rhwng y strategaeth a llai o anafiadau (e.e., cadw deunyddiau gwenwynig mewn man diogel) AC
4) Y mae'r strategaeth dan sylw wedi'i gweithredu mewn sefyllfa byd go iawn fel bod ymarferoldeb yr ymyriad hefyd wedi'i archwilio.

Y mae'r Canllaw yn adeiladu ar waith blaenorol gan y Gynghrair ac ymchwilwyr diogelwch plant o bob cwr o'r byd ac y mae'n gam pellach gyda chefnogi Aelod-Wladwriaethau mewn symud tuag at ymarfer da yn seiliedig ar dystiolaeth. Ei diben yw galluogi Aelod-Wladwriaethau i archwilio opsiynau strategaeth ar gyfer anafiadau anfwriadol i blant, symud ymaith o'r hyn sydd 'bob amser wedi cael ei wneud' a symud tuag at fuddsoddiadau da - strategaethau y gwyddys eu bod yn gweithio neu sydd â'r tebygolrwydd mwyaf o lwyddo.Y mae'r strategaethau hyn at ei gilydd yn ymagweddiadau addasiadau amgylcheddol ac o ran cynnyrch; deddfwriaeth, rheoliadau a gorfodi; hyrwyddo'r defnydd o ddyfeisiadau diogelwch; ymweliadau cefnogol â chartrefi; ymyriadau yn y gymuned; ac addysg a datblygu sgiliau.

Ymarfer Da Argymelledig

Strategaethau ar gyfer Diogelwch Plant

Y mae'r tabl a ganlyn yn darparu trosolwg ar y strategaethau ymarfer da a ategir gan dystiolaeth gyfredol ac a argymhellir yn y Canllaw Ymarfer Da. Fe fydd mabwysiadu a gweithredu'r strategaethau hyn yn darparu'r buddsoddiadau gorau ar gyfer lleihau'r prif achos marwolaeth a'r baich iechyd ac amgylcheddol mwyaf i blant yn Ewrop. Y mae gan y strategaethau god lliw i roi arwydd o ba un o'r 3 isod o atal anafiadau yw'r ffocws –

- Peirianneg (cyfaddasu cynnyrch / yr amgylchedd),
- Gorfodi (polisi / deddfwriaeth a mesurau i sicrhau cydymffurfio), neu
- Addysg (addysg / strategaethau newid ymddygiad).

Ymarfer da ar gyfer diogelwch teithwyr sy'n blant
Seddi diogel i deithwyr sy'n blant
Deddfwriaeth ynglŷn â seddi diogel i deithwyr sy'n blant
Ymyriadau yn y gymuned sy'n cyfuno lledaenu gwybodaeth am ddiogelwch seddi diogel i deithwyr sy'n blant gyda gwell ymgyrchoedd gorfodi
Ymyriadau yn y gymuned sy'n cyfuno dosbarthu seddi diogel i deithwyr sy'n blant, rhaglenni benthyg neu gymhellion gyda rhaglenni addysg
Gwregysau diogelwch
Deddfwriaeth yn mynnu defnyddio gwregys diogelwch ymysg plant hŷn.

Ymarfer da ar gyfer diogelwch cerddwyr sy'n blant
Atebion peirianyddol drwy ardal gyfan i leihau risg i gerddwyr (yn cynnwys cyfleusterau i gerddwyr a / neu isadeiledd arafu traffig)
Addasiadau cerbydol i leihau'r risg o ddamweiniau angheuol i gerddwyr (e.e., tu blaen diogelach i geir)
Deddfwriaeth / polisi o ostwng cyflymderau cerbydau mewn ardaloedd preswyl
Gorfodi deddfwriaeth / polisi yn gostwng cyflymderau cerbydau mewn ardaloedd preswyl
Addysg yn y gymuned / rhaglenni eiriolaeth i atal anafiadau i gerddwyr sy'n blant 0-14 mlwydd oed
Hyfforddiant sgiliau i gerddwyr i wella sgiliau croesi ffordd i gerddwyr sy'n blant
Cynlluniau gweithredu cenedlaethol sy'n cynnwys ystod eang o fesurau: cyfyngiadau cyflymder isel, mesurau gostwng cyflymder, hyrwyddo diogelwch eilaidd a chyhoeddusrwydd wedi'i anelu at blant a'u rhieni, fel ei gilydd, a gyrwyr

Ymarfer da ar gyfer diogelwch cerddwyr sy'n blant
Defnyddio helmedau beicio
Atebion peirianyddol drwy ardal gyfan a mesurau arafu traffig (e.e., parthau gostwng cyflymder)
Atebion peirianyddol drwy ardal gyfan i leihau risg i feicwyr (yn cynnwys lonydd a llwybrau beicio)
Deddfwriaeth ar helmedau beicio
Addysg yn y gymuned / rhaglenni eiriolaeth yn ymwneud â phlant yn gwisgo helmed
Hyfforddiant sgiliau beicio i gynyddu gwybodaeth a sgiliau ar gefn beic ymysg y plant

Ymarfer da ar gyfer diogelwch plant yn ymwneud â dŵr
Defnyddio dyfeisiadau arnofiant personol (PFD) ar gyfer gweithgareddau mewn cychod a gweithgareddau hamdden eraill yn ymwneud â dŵr
Arwyddion parthed ymddygiadau diogel o amgylch dŵr yn cael eu harddangos drwy ddefnyddio arwyddion eglur a syml
Deddfwriaeth yn mynnu ffensys arwahanu gyda llidiardau sicr, sy'n hunan-glicio ar gyfer pob pwll, rhai cyhoeddus, lled gyhoeddus a phreifat, yn cynnwys pyllau sydd newydd eu hadeiladu a rhai presennol, fel ei gilydd
Safonau diogelwch ar gyfer pyllau nofio
Achubwyr bywydau (staff digonol, wedi'u cymhwyso, eu hyfforddi a'u cyfarparu)
Addysg yn y gymuned / eiriolaeth i gynyddu'r defnydd o ddyfeisiadau arnofiant personol
Hyfforddiant sgiliau diogelwch dŵr (yn cynnwys gwersi nofio) i wella perfformiad nofio

Ymarfer da ar gyfer atal cwympiadau ymysg plant
Peirianweithiau diogelwch ffenestri i atal plant rhag agor ffenestri, megis bariau a dyfeisiadau cloi yn eu lle
Gatiau staer ar ben grisiau mewn cartrefi gyda phlant bach
Rhoi wyneb o ddeunyddiau megis tywod neu sglodion pren i ddyfnder o 23-31 centimetr (9-12 o fodfeddi) o dan gyfarpar lle chwarae. Uchder gorau'r cyfarpar i leihau'r risg o anaf i'r pen yw 1.5 metr (5 troedfedd)
Deddfwriaeth yn gwahardd offer cerdded i fabanod NEU sy'n mynnu bod yn rhaid addasu'r cynnyrch i rwystro symudedd
Gorfodi safonau sy'n mynnu dyfnder diogel i fathau penodedig o ddeunyddiau rhoi ar wyneb o dan gyfarpar lle chwarae, a chynnal a chadw'r deunyddiau hynny'n rheolaidd
Rhaglenni addysgol i annog y defnydd o ddyfeisiadau diogelwch atal cwympo megis peirianweithiau diogelwch ffenestri i atal plant rhag agor ffenestri i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau

Ymarfer da ar gyfer atal llosgiadau a sgaldio ymysg plant
Addasu cynnyrch, yn benodol tanwyr sigaréts nad oes modd i blant eu defnyddio a sigaréts sy'n diffodd eu hunain
Deddfwriaeth sy'n mynnu tymheredd diogel wedi'i ragosod ar gyfer holl wresogyddion dŵr
Deddfwriaeth yn mynnu gosod canfodyddion mwg mewn tai newydd a thai presennol, wedi'u cyfuno gydag ymgyrchoedd cymunedol amlffactoraidd a chwponau prisiau is
Deddfwriaeth yn rheoleiddio fflamadwyedd dillad cysgu
Deddfwriaeth yn gwahardd gwneuthur a gwerthu tân gwyllt ynghyd â gorfodi'r ddeddfwriaeth
Rhaglenni rhoi canfyddion mwg am ddim sy'n targedu cymdogaethau risg uchel ac ymgyrchoedd cymunedol amlweddog gyda'r amcan penodol o osod canfyddion mwg sy'n gweithio
Y mae ymgyrchoedd addysg / eiriolaeth yn ymwneud â thanau gwyllt yn ddefnyddiol fel ymdrechion atodol ac fe ellir eu defnyddio i adeiladu cefnogaeth ar gyfer deddfwriaeth
Hyfforddiant sgiliau diogelwch tân i gynyddu gwybodaeth ac ymddygiad plant a rhieni, fel ei gilydd

Ymarfer da ar gyfer atal gwenwyno ymysg plant
Cadw gwenwynau mewn lle diogel
Deddfwriaeth ar gyfer pacio mewn modd na all plant gael atynt
Canolfan rheoli gwenwynau gydag addysg i'r cyhoedd parthed y defnydd o'r ganolfan

Ymarfer da ar gyfer atal tagu / llindagu ymysg plant
Addasu cynhyrchion yn ymwneud â pheryglon maglu sy'n bodoli megis dyluniad presebau / crudau, a gorfodi drwy ddeddfwriaeth
Gwahardd cynhyrchion sy'n anniogel drwy ddeddfwriaeth
Deddfwriaeth sy'n mynnu labeli rhybuddio ar gynhyrchion i gynnwys eglurhad am y perygl penodol

Ymarfer da ar gyfer diogelwch cyffredinol cartrefi plant
Cwnsela ar ddiogelwch yn y cartref (rhoi sylw i faterion megis defnyddio bariau ffenestri, gatiau staer, mathau eraill o gyfarpar diogelwch cartref a pheidio â defnyddio offer cerdded babanod, seddau baddon a mathau eraill o gyfarpar sy'n cynhyrchu peryglon o anaf)
Cymorth cymdeithasol yn seiliedig ar y cartref, megis rhaglenni ymweld â chartref ar gyfer mamau newydd
Addysg / cwnsela ar lefel unigol ar atal anafiadau anfwriadol yn ystod plentyndod yn y sefyllfa glinigol

Ymarfer da ar gyfer atal anafiadau cyffredinol i blant yn y gymuned
Addysg atal anafiadau yn yr ysgol i gynyddu gwybodaeth ac ymddygiad yn gysylltiedig â diogelwch
Ymagweddiadau addysg a hyfforddiant rhyngweithiol ar gyfer plant

Ymarfer da ar gyfer arweinyddiaeth, isadeiledd a chynhwysedd yn y wlad i gymorth atal anafiadau i blant
Gweithgareddau adeiladu cynhwysedd, megis cynadleddau, gweithdai a rhaglenni addysg parhaus
Arweinyddiaeth genedlaethol i sefydlu cyfeiriad ac i ddatblygu gweledigaeth o'r dyfodol, datblygu strategaethau newid, trefnu pobl, ysbrydoli, egnioli
Casglu a lledaenu data i gymorth cadw golwg ar a gwerthuso rhaglenni atal anafiadau a datblygu polisi ac ymarfer